# PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

## 27 HYDREF 2022

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

| | |
|---|---|
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Thomas** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, M.Crowley, N.Goldup-John, J.Henton, J.Jones, C.Lewis, R.Mizen, P.A.Rees, S.H.Reynolds a/ac D.Whitelock |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | A. Amor a/ac M.Caddick |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | H.Lervy, C.Millis, P.Walker, R.Crowhurst, C.Griffiths, C.Millis, P.Doyle, E.Dennis, K.Gilbert, S.McCluskie a/ac A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr N.Jenkins a/ac J.Hurley |

---

1. **<u>CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Aelodau yn craffu ar eitemau 9, 12 a 16 ar Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

Nododd yr Aelodau nad oedd tudalen 8 o'r cofnodion yn cynnwys cofnod o ymateb Aelodau'r Cabinet dros Addysg i'r cais am

gadarnhad y byddai'r gyllideb ar gyfer y Ddarpariaeth Ieuenctid yn cael ei chynnal ar gyfer y flwyddyn. Cadarnhaodd Aelod y Cabinet y byddai'r gyllideb yn cael ei chynnal ar gyfer y flwyddyn.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022 fel cofnod gwir a chywir gyda'r diwygiad uchod.

## 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

### Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu (Caniatâd i Ymgynghori)

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r Aelodau yn ymwneud â'r Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu (Caniatâd i Ymgynghori), fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Holodd yr Aelodau a fyddai'r sgyrsiau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn cynnwys ceisio ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan mewn darpariaethau ieuenctid lleol yn eu cymunedau. Holodd yr Aelodau a fyddai gwaith yn cael ei wneud gyda sefydliadau trydydd sector a'r Swyddogion Cymorth Cymunedol lleol yr Heddlu. Cadarnhaodd Swyddogion y byddent yn edrych ar bob grŵp o blant a phobl ifanc, a'r rheini a fyddai fwyaf agored i niwed. Pwysleisiodd Swyddogion bwysigrwydd deall yr hyn sy'n bwysig i bobl ifanc fel y gellir llunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl ifanc.

Yn dilyn craffu roedd yr Aelodau’n gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

### Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2020/21

Cyflwynwyd gwybodaeth i’r Aelodau yn ymwneud ag Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2020/21. Mae'r adroddiad yn nodi trosolwg o ran sut ymatebodd yr awdurdod ym mlwyddyn gyntaf y pandemig.

Ailadroddodd Aelodau pa mor bwysig yw hi i lyfrgelloedd weithredu fel hybiau cymunedol a chydnabuwyd y byddai’r pwysigrwydd hwn yn cynyddu’n fawr yn y dyfodol. Cydnabu'r Aelodau fod Castell-nedd Port Talbot yn un o'r awdurdodau a welodd gynnydd mewn cyfranogiad yn y llyfrgelloedd yn ystod y pandemig. Mae cynnal yr hybiau hyn o fewn cymunedau yn hynod bwysig. Cadarnhaodd Swyddogion y byddai hyn yn cael ei gynnal dros y misoedd nesaf.

Holodd yr Aelodau a fyddai llyfrgelloedd yn cynnig parthau cynnes dros y misoedd nesaf, yn wyneb y cynnydd yng nghost ynni. Cadarnhaodd Swyddogion y byddai llyfrgelloedd yn rhan o hyn, yn ogystal â Chanolfan Celfyddydau Pontardawe, a bydd sgyrsiau'n cael eu cynnal gyda Celtic Leisure i benderfynu a fyddent hefyd yn gallu cymryd rhan.

Mynegodd yr Aelodau eu diolch i'r Aelodau am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i'r cyhoedd.

Yn dilyn craffu roedd yr Aelodau’n gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**Diweddariad ar y Gwasanaeth Ieuenctid**

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r Aelodau yn ymwneud â'r Gwasanaeth Ieuenctid fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion am wybodaeth sy'n nodi pa glybiau ieuenctid sydd ar gael ar draws yr ardal ac sy'n cysylltu â'r awdurdod lleol. Nododd Swyddogion y byddent yn ychwanegu'r wybodaeth hon at yr adroddiad nesaf.

Holodd Aelodau'r pwyllgor a oedd plant nad oedd eto wedi dychwelyd i'r ysgol oherwydd y pandemig, bellach wedi dychwelyd. Cadarnhaodd Swyddogion fod cysylltiad â'r swyddogion a'r cyrff priodol yn cael ei gynnal â'r plant nad oeddent wedi dychwelyd eto. Mae rhai plant wedi dewis derbyn addysg yn y cartref a chedwir cysylltiad â nhw yn ôl yr angen.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau yr adroddiad.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad cynharach ar yr argyfwng costau byw. Dywedodd Swyddogion eu bod yn edrych ar yr eitem hon ar hyn o bryd ac y byddant yn cysylltu â'r Aelodau ar yr eitem hon.

Dywedodd Swyddogion y byddai diweddariad ar yr Adolygiad Barnwrol yn cael ei gyflwyno ar ôl iddo gael ei ystyried yn llawn gan Swyddogion.

Dywedodd y Cadeirydd fod angen derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar eitemau er mwyn i'r pwyllgor craffu allu ystyried yr eitem yn llawn.

Ar ôl ystyried, nododd yr Aelodau'r Blaenraglen waith.

## 6. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 7. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

Nid oedd angen yr eitem hon gan nad oedd unrhyw eitemau preifat i'w hystyried.

**CADEIRYDD**